# DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER ASESIAD DADANSODDI’R ACHOS A’R MATER SQE2

| *Sgiliau* | *Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd* | *Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd* |
|---|---|---|
| **Nodi ffeithiau perthnasol** | • Gan ddefnyddio’r dogfennau a ddarperir, mae'r ymgeisydd yn dewis ffeithiau sy'n bwysig wrth sicrhau bod y cleient wedi’i fodloni o ran ei anghenion / amcanion, neu fod y ffeithiau hynny’n berthnasol wrth gynnal dadansoddiad cyfreithiol | • Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at yr holl ffeithiau o'r dogfennau, ni waeth p'un a ydynt yn bwysig wrth gyflawni amcanion y cleient neu'n berthnasol i'w dadansoddiad cyfreithiol, ai peidio<br>• Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at ffeithiau amherthnasol yn unig<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cyfeirio at ffeithiau perthnasol digonol i gefnogi'r dadansoddiad cyfreithiol |
| | | |
| **Rhoi cyngor sy’n dangos ffocws ar y cleient (h.y. cyngor sy’n dangos dealltwriaeth o’r broblem o safbwynt y cleient a’r hyn y mae’r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol)** | • Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn deall problem y cleient o safbwynt y cleient.<br>• Mae'r ymgeisydd yn mynd i'r afael â phroblem gyfreithiol y cleient, unrhyw ystyriaethau masnachol perthnasol a/neu amgylchiadau, blaenoriaethau, amcanion a chyfyngiadau personol y cleient | • Nid yw'r ymgeisydd yn gwerthfarwogi nac yn ymdrin â phroblem y cleient o safbwynt y cleient<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn canolbwyntio ar y materion a nodwyd gan y cleient |
| | | |
| **Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol** | • Mae'r darllenydd yn deall defnydd yr ymgeisydd o iaith ac eglurder ei fynegiant | • Mae'r darllenydd yn cael trafferth deall defnydd yr ymgeisydd o iaith; nid yw'r ateb yn glir a/neu mae wedi'i fynegi'n wael |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r ymgeisydd yn osgoi termau technegol/jargon cyfreithiol diangen | • Mae dealltwriaeth y darllenydd yn cael ei heffeithio'n andwyol gan natur ddwys, hir neu fyr yr ateb<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio termau technegol/jargon cyfreithiol diangen |
| | | |
| ***Y Gyfraith*** | ***Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd*** | ***Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd*** |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | • Mae'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol yn unol â manyleb asesiad SQE2 ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi nac yn defnyddio'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient<br><br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghenion a phryderon y cleient |
| | | |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | • Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun achos y cleient e.e. mae'n asesu gwybodaeth er mwyn nodi materion a risgiau allweddol; mae'n dod i gasgliadau rhesymol a gefnogir gan dystiolaeth berthnasol<br><br>• Lle bo'n berthnasol, mae'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol ac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) | • Nid yw dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun achos y cleient e.e. mae'r ymgeisydd yn dangos dim neu ychydig yn unig o ddealltwriaeth o'r materion a'r risgiau allweddol; mae'n methu â chymhwyso'r gyfraith i'r ffeithiau er mwyn dod i gasgliadau rhesymol<br><br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol nac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) |